



Cyngor ac adnoddau am reoli arian fel myfyriwr

Helpwr
 **Arian**


Llywodraeth EM

Gwneud eich dewisiadau arian a'ch pensiynau yn gliriach

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian yma i'ch helpu chi. Mae'n wasanaeth sydd ar gael ar-lein a dros y ffôn, lle cewch gyngor arian a phensiynau clir, sy'n hawdd i'w defnyddio ac a gefnogir gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau proffesiynol eraill os oes angen mwy o gymorth arnoch.

Ar gael i bawb ac am ddim, mae HelpwrArian yn eich helpu i dalu eich dyledion, lleihau gwariant a gwneud y mwyaf o'ch incwm. Er mwyn cefnogi anwyliaid, cynlluniwch ymlaen llaw ar gyfer pryniannau mawr a gofynnwch am unrhyw hawliau a all fod yn berthnasol i chi. Am wybodaeth am gronni cynilion a phensiynau, a gwybod eich opsiynau, ewch i HelpwrArian: **moneyhelper.org.uk/cy**

Cyngor diduedd am ddim

ar y we | ar y ffôn

Darparwyd gan



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**

1. Gosod cyllideb wythnosol

Nid yw cael benthyciad neu grant myfyriwr – neu arian gan deulu neu swydd – yn golygu eich bod yn gyfoethog ar unwaith. Rhaid i'r incwm hwn bara bob mis neu dymor, felly gosodwch gyllideb wythnosol i reoli'ch arian.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am gyngor **am reoli arian fel myfyriwr** a defnyddiwch un o'r **cyfrifiannellau cyllidebu ar Save the Student** neu Cynllunydd Cyllideb **HelpwrArian**.

2. Sicrhau'r incwm mwyaf posibl a rheoli gwariant

Fel myfyriwr, efallai mai dyma'r tro cyntaf i chi fod yn gyfrifol am reoli'ch arian eich hun. Bydd angen i chi gyllidebu ar gyfer rhent, bwyd, biliau, trafndiaeth a chymdeithasu. Os byddwch yn gallu rheoli eich gwariant nawr, bydd yn eich helpu i osgoi problemau ariannol yn nes ymlaen.

Mae costau byw yn codi, a bydd angen i'ch arian ar gyfer y tymor bara'n hirach. Efallai na fydd yr hyn a warioch chi ar fwyd a biliau yn y gorffennol yn debyg iawn i gostau eleni.



Byddwch yn ddoeth wrth gyllidebu a pheidwch â bod ofn gofyn am help gan rywun yn eich lle coleg/prifysgol os ydych yn cael trafferth talu am hanfodion.

Cadwch lygad allan am ostyngiadau myfyrwyr wrth siopa neu gofrestru ar gyfer tanysgrifiadau. Byddwch yn gallu defnyddio'ch e-bost myfyriwr neu gerdyn adnabod ar gyfer rhai gostyngiadau, ond gallwch hefyd gofrestru ar gyfer mwy o gostyngiadau **TOTUM, Unidays a Student Beans.**

Byddwch yn ofalus, er y gall gostyngiadau eich helpu i arbed arian yn y tymor byr, mae'n hawdd cael eich temptio i orwario. Nid yw'n "10% i ffwrdd" os nad oedd angen yr eitem arnoch yn y lle cyntaf, mae'n debycach i "90% o gostau".

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am wybodaeth am **sut i arbed arian ar filiau.**

Dylech fod yn ofalus a deall y risgiau o geisio gwneud arian drwy fuddsoddi. Mae myfyrwyr wedi colli symiau mawr o arian trwy ddefnyddio eu benthyciad i wneud buddsoddiadau risg uchel mewn arian cyfred cripto neu ar apiâu sy'n gwerthu stociau unigol. Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am wybodaeth am **ddeall risgiau wrth fuddsoddi.**

3. Deall cytundebau ar gyfer rhentu neu dalu biliau

Mae'n bwysig deall y rhwymedigaethau y gallech chi – neu'ch rhieni/ gwarcheidwaid – eu hwynebu am fethu â thalu unrhyw arian sy'n ddyledus wrth arwyddo cytundeb cyfreithiol rywomol yn eich enw chi. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os ydych yn rhannu biliau gyda chyd-letywyr.

Os byddwch yn methu â thalu Debyd Uniongyrchol (mwy nag unwaith) i rywun mae arnoch arian iddynt, gallai hyn gael ei ystyried yn dor-cytundeb, a allai effeithio ar eich sgôr credyd.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am wybodaeth am **gyfrifoldebau cyfreithiol ac ariannol wrth rentu.**

4. Gwirio sgoriau credyd

Ni fydd derbyn benthyciad myfyriwr yn effeithio ar eich sgôr credyd, ond gall mathau eraill o fenthycia a thalu biliau, fel trefniadau prynu nawr talu nes ymlaen neu gytundebau ffôn, gael effaith arno.

Mae'n bwysig eich bod yn gwneud ad-daliadau ar amser er mwyn osgoi gwneud eich sgôr credyd yn waeth. Os byddwch yn cael trafferth wrth wneud ad-daliad, dylech bob amser gysylltu â'r cwmnïau y mae arnoch arian iddynt yn syth. Gallwch wirio a monitro eich adroddiad credyd ar-lein am ddim.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am wybodaeth am **sgoriau credyd.**

5. Rheoli cyfrif myfyriwr

Cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu myfyriwr yw'r brif ffordd i chi reoli eich arian o ddydd i ddydd.

Gall nwyddau am ddim sy'n dod gyda chyfrif newydd fod yn demtasiwn, ond dylech ystyried ffactorau eraill, megis a oes ap hawdd ei ddefnyddio ar gael a beth yw'r gorddrafft di-dâl sydd ar gael. Mae'n hefyd yn bwysig edrych ar y ffioedd a allai fod yn berthnasol os byddwch yn defnyddio gorddrafft heb gael caniatâd.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am gyngor am **gyfrifon myfyrwyr**.

6. Defnyddio gorddrafft di-log

Mae gweithio allan cyllideb i dalu eich treuliau am y tymor llawn yn gam cyntaf pwysig; fodd bynnag, mae gorddrafft awdurdodedig di-log yn parhau i fod yn hanfodol i lawer o fyfyrwyr. Gall helpu i leihau'r angen i dderbyn mathau drutach o gredyd. Os ewch dros eich gorddrafft di-log neu os ewch i orddrafft anawdurdodedig, codir ffioedd a llog ychwanegol arnoch.

Serch hynny, cofiwch nid arian am ddim yw hwn, a bydd rhaid i chi ei dalu'n ôl ar ôl graddio.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am gyngor am **orddrafftiau a rheoli dyledion ar ôl graddio**.

7. Cronni cynilion

Gall cyllidebu wythnosol ei gwneud hi'n haws nodi lle gallwch arbed arian a chroni cynilion ar gyfer argyfyngau, waeth pa mor fawr neu fach, a thrwy hynny leihau'r angen i ddefnyddio credyd.

Os byddwch yn agor cyfrif ar wahân ar gyfer eich cynilion, bydd llai o demtasiwn i'w wario na phe bai'r arian yn aros yn eich prif gyfrif myfyriwr.

Os ydych newydd droi 18 oed, a ydych yn ymwybodol bod eich cronfa Ymddiriedolaeth Plant yn barod i chi ei ddefnyddio?

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am wybodaeth am **gronfeydd ymddiriedolaeth plant** neu am **gyfrifon cynilwr mynediad ar unwaith**.

8. Diogelu pethau gwerthfawr ac eiddo

Sicrhewch fod eich ffôn symudol, gliniadur, beic, ac eiddo arall wedi'u diogelu'n ddigonol rhag ofn y bydd colled, lladrad neu ddifrod.

Gall rhai eitemau gael eu hyswrio oddi cartref, gan yswiriant cynnwys cartref eich rhieni neu warcheidwaid.

Os ydych yn byw ar y campws, gofynnwch a yw yswiriant cynnwys wedi'i gynnwys yn eich costau llety.

Edrychwch ar dudalen Helpwr Arian am wybodaeth am **yswiriant cynnwys** ac, os ydych yn bwriadu gyrru, **yswiriant car**.

9. Bod yn effro i sgamiau

Meddwl na fyddech byth yn cael eich twyllo?

Mae'n debyg nad yw hynny'n wir. Yn ôl Sky News, mae pobl o dan 25 oed chwe gwaith yn fwy tebygol o gael eu twyllo gan droseddwyr sy'n defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol na phobl dros 50 oed.

Sicrhewch eich bod yn aros yn effro i sgamiau: gallech gael eich targedu trwy negeseuon testun neu WhatsApp, ebyst neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gallai'r sgamiau hyn fod yn hysbysebu cynlluniau i ddod yn gyfoethog yn gyflym, grantiau llywodraeth am ddim (tebygol i fod yn dwyll budd-dal) neu ofyn i chi fod yn ful arian trwy drosglwyddo arian yn anghyfreithlon rhwng cyfrifon.

Dylech roi gwybod i **Action Fraud** am unrhyw sgamiau sydd wedi cael eu targedu tuag atoch chi ar unwaith. Peidiwch â datgelu unrhyw wybodaeth bersonol nac anfon na derbyn arian gan sgamwyr.

Gall defnyddio eich cyfrif banc ar gyfer gweithgaredd anghyfreithlon olygu y bydd eich cyfrif yn cael ei gau, sy'n golygu y bydd derbyn arian ar gyfer eich benthygiad myfyriwr neu swydd yn anoddach.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am gyngor **am wybodaeth am sgamiau**.

10. Cael trafferth gyda dyled

Os ydych yn cael trafferth gyda dyled neu'n poeni am arian, cysylltwch ar unwaith i gael help am ddim.

Mae gan bob prifysgol a choleg wasanaethau cymorth i fyfyrwyr, ac mae gan lawer ohonynt gynghorwyr arian myfyrwyr ymroddedig, a all eich helpu i weithio allan sut i ddelio â dyledion a chael mynediad at gronfeydd caledi.

Am faterion dyled mwy difrifol, edrychwch ar adran **cyngor dyledion HelpwrArian** i ddod o hyd i weithiwr proffesiynol a phrofiadol a all eich helpu am ddim.



Ewch i safle HelpwrArian drwy sganio'r cod QR hwn

HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn sefydliad annibynnol wedi'i sefydlu gan y Llywodraeth i helpu pobl i wneud y gorau o'u harian drwy roi cyngor diduedd ar bensiynau ac arian i bawb ledled y DU – ar-lein a dros y ffôn.

Am gyngor diduedd ac am ddim ar unrhyw ymholiadau arian neu bensiynau, gallwch gysylltu â ni drwy ffonio:

Cyngor arian

0800 138 3944

Llun – Gwe 8yb–6yh

+44 20 3733 3495

os ydych y tu allan i'r DU

Cyngor pensiynau

0800 011 3797

Llun – Gwe 9yb i 5yh

+44 20 7932 5780

os ydych y tu allan i'r DU

Neu ewch i moneyhelper.org.uk/cy

Gwe-sgwrs:

moneyhelper.org.uk/moneychat

moneyhelper.org.uk/pensionschat

WhatsApp:

+44 7701 342744

(cyngor arian)

Ymunwch â'n **cymunedau ar-lein** am gymorth: moneyhelper.org.uk/cy/blog/everyday-money/come-and-join-our-online-communities



Cyngor ac adnoddau am reoli arian fel myfyriwr yw un o'r canllawiau sydd ar gael gan HelpwrArian. Mae'r Cyhoeddiad hwn ar gael yn y Saesneg. I weld y cyhoeddiad hwn a'n canllawiau eraill, ac i ofyn am gopïau, ewch i **moneyhelper.org.uk/canllawiau-print-am-ddim**

HelpwrArian*

Cyngor arian **0800 138 7777**

Llun - Gwe 8yb-6yh

Cyngor pensiynau **0800 011 3797**

Llun - Gwe 9yb i 5yh

Typetalk **1800 10800 915 4622**

Llun - Gwe 8yb i 6yh

WhatsApp **+44 7701 342744**

Gwefan **moneyhelper.org.uk/cy**

Helpwr
↪Arian
Cynilion

Os hoffech dderbyn y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau ffôn uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2023). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

*Mae galwadau am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu'n monitro galwadau.